

Blegywryd – T, Harley 958, f. 45v

Dadannudd

Pwy bynhac a ovynho datanhud o'r tir a gynhalyassei y tat hyt varw trwy wresgyn o eredic, datanhud o gwbyl a dily y gaffel, ony byd o gorff y tat etiued a vo teilyghach noc ef, neu vn vreint ac ef, yn kynhal y tir yn y erbyn, neu yn kytouyn datanhud ac ef yn y llys. Ac yno y tric heb wrtheb y neb o'r tir yny del amser medi, ac ymchoelut y gefyn ar y das, ony daw y brawt hynaf a'r teilyghaf. Or daw a vo teilyghach, ef a geiff oll. Os y gyffelyp a daw, y kyffelyp a geiff o ran. Os datanhud karr a uernir y dyn o dyuot a charr y'r tyr, gorffowys a geiff yno naw diwarnawt, ac yn y nawuetdyd y dyry attep, ac yn yr eil nawuetdyd, barn. Os trwy datanhud gyt a beich kefyn y doeth y'r tir a gynhelis y tat gynt hyt varw, tri dieu y keiff gorffowys, ac yn y trydyd dyd y dyry attep, ac yn y nawuet, barn. Py dyw bynhac y barnher datanhud, ny dichawn neb o gyfreith y wrthlad ohonaw onyt etiued priodawr ar datanhud herwyd y oet. Sef yw hwnnw, yr hynaf, kany dichawn y'r eil datanhud gwrthlad y kyntaf. Ac ny dichawn vn ampriodawr gwrthlad ampriodawr arall. Ac or byd amrysson rwg deu etiued kydrychawl, ny dichawn vn gwrthlad y gilyd o gifreith. O'r deu etiued gyfreithawl, vn a vyd priodawr ar datanhud cwbyl, a'r llall a vyd ampriodawr. Yr vn hagen a vyd priodawr ar datanhud cwbyl kanyt pryawt datanhud y neb namyn y'r brawt hynhaf o'r brodyr oll.

Blegywryd – T

Dadannudd

Pwy bynnag a ofynno ddadannudd o'r tir a gynaliasai ei dad hyd ei farw trwy oresgyn gan aredig, mae'n iawn iddo gael dadannudd o'r cwbl, oni fydd etifedd o gorff y tad a fo'n deilyngach nag ef, neu yn un frait ag ef, yn cynnal y tir yn ei erbyn, neu yn gofyn dadannudd ar y cyd ag ef yn y llys. A dylai aros yno heb ateb i neb ynghylch y tir hyd nes y daw amser medi, a throi ei gefn ar y das, oni ddaw'r brawd hynaf a'r teilyngaf. Os daw un a fo'n deilyngach, caiff ef y cyfan. Os daw un cyffelyb iddo, caiff ef ran gyffelyb. Os bernir dadannudd car i ddyn oherwydd iddo ddod â char i'r tir, caiff orffwys yno am naw niwrnod, ac ar y nawfed dydd y dyry ateb, ac ar yr ail nawfed dydd, [rhoddir] barn. Os trwy ddadannudd gyda baich cefn y daeth i'r tir a gynhaliodd ei dad gynt hyd ei farw, caiff orffwys am dridiau, ac ar y trydydd dydd y dyry ateb, ac ar y nawfed, [rhoddir] barn. Pwy bynnag y barner dadannudd iddo, ni all neb trwy gyfraith ei ddifeddiannu ohono heblaw etifedd briodor ar ddadannudd ar gyfrif ei oed. Dyma yw hwnnw, yr hynaf, gan na all yr ail ddadannudd ddifeddiannu'r cyntaf. Ac ni all un amhriodor ddifeddiannu amhriodor arall. Ac os bydd ymryson rhwng dau etifedd presennol, ni all un ddifeddiannu'r llall trwy gyfraith. O'r ddau etifedd cyfreithiol, bydd un yn briodor ar ddadannudd cyflawn, a bydd y llall yn amhriodor. Yr un yn wir a fydd yn briodor ar ddadannudd cyflawn gan nad oes priod ddadannudd i neb heblaw i'r brawd hynaf o'r brodyr oll.

Iorwerth – D, Peniarth 32, f. 51r

Dawnbwyd

O'r maenoreu kaeth y dylyir deu dawn bop blwydyn. Y gaeaf: hwch deirblwydd; a llestyr emenyn tri dyrnued o hyt a thri o let; a dogyn kerwyn o vrac y bo naw dyrnued yndi yn amrocoyw; a dreua o geirch unrwym yn ebran; a chwe thorth ar hugeint o'r bara goreu a dyfho ar y tir. Or byd gwenith ar y tir, chwech onadunt yn beilleit. Ony byd gwenith, chwech onadunt yn rynnyn: pedeir onadunt y'r neuad, a dwy parth a'r ystauell, ac yn gyflet ac o elin hyt ardwrn ac yn gyn dewhet ac na phlycon yr eu daly herwyd eu deu ymyl. A dyn a gynneuho tan y nos honno yn y neuad, neu geinhawc y'r dyn a'e kynneuho drostaw.

Mesur dawnbwyd yr haf yw mollt teirblwydd; a manhat emenyn kyflet a'r dysgyl letaf yn y dref a chyn dewhet ac y bo dwy foel dyrnued yndaw; a chwe thorth ar hugeint o'r ryw uara a dywedassam ni uchod; a chossyn a wnelher o holl brytllaetheu y dref unweith yn y dyd gyt a'r bara; heb vrac, ac heb ebran, heb dyn y gynneu tan.

Iorwerth – D

Dawnbwyd

Mae'n iawn derbyn dau ddawn o'r maenorau caeth bob blwyddyn. Y gaeaf: hwch deirblwydd; a llestr ymenyn tri dyrnued o hyd a thri o led; a dogyn casgen o frag y bo naw dyrnued ynddi yn lletraws; a dreua o geirch unrwym yn borthiant i'r meirch; a chwe thorth ar hugain o'r bara gorau a dyfo ar y tir. Os bydd gwenith ar y tir, chwech ohonynt yn flawd mân. Oni fydd gwenith, chwech ohonynt yn flawd bras: pedair ohonynt i'r neuadd, a dwy ar gyfer yr ystafell, ac mor llydan ag o benelin hyd at arddwrn ac mor drwchus fel na phlygont er eu dal gerfydd eu dau ymyl. A dyn a gyneuo dân y nos honno yn y neuadd, neu geiniog i'r dyn a'i cyneuo ar ei ran.

Mesur dawnbwyd yr haf yw mollt teirblwydd; a thalp o ymenyn mor llydan â'r ddysgl letaf yn y dref ac mor drwchus ag y bo dwy foel ddyrnued ynddo; a chwe thorth ar hugain o'r un math o fara a ddywedassom ni uchod; a chossyn a wnelher o holl odroadau'r dref unwaith yn y dydd gyda'r bara; heb frag, a heb borthiant y meirch, heb ddyn i gynnau tân.

Iorwerth – C, Cotton Caligula A.iii, f. 166v

Achos Llys am Dir

Ual hynn ed eystedyr en kyvreythyawl: eyste o'r brenyn new o'r dyn a vo en y le a'y kevyn ar er hewl new ar er hyn rac avlonydw er hyn o'e wynef ef. A'r egnat llys nev egnat e kemvt, er hwn hynaf a vo, en eyste rac y vron ef. Ac ar e llaw assw y hvnnw er egnat arall a vo en e maes new er egypt, ac ar e llaw dehew ydav ef er effeyryat o byd en e maes, new er effeyryeyt. Ac eg kylch e brenyn nev e nep a vo en y le e dew hynevyd a'y wyrda o henny allan o pob tw ydaw. Odyna fford y'r egypt kyvarwynep ac wynt y darymret y ew brawtle. Odyna kyghaws er hawlwr ar llaw assw ydaw ar e fford, a'r hawlwr en nessaf ydaw en e perved, a'r kanllaw ar e llaw arall ydaw, a'r ryghyll en sevyll trachevyn e kyghaws. A'r pleyt arall e tw arall y'r fford: kyghaws er amdyffynnwr ar llaw dehew ydaw ar e fford, a'r amdyffynnwr en nessaf ydaw en e perved, a'y kanllaw dyweythyon de havl. Ac ena e mae yavn y'r hawlwr dechrev holy.

Llyma essayd yavn y'r hawlwr y dywedwyt: mynegy y vot ef en pryodavr ar e tyr hvnn ema a'r dayar, ac o byd a amhevho ydav ef y vot en pryodavr, bot kanthav entew a katwo y pryodolder o ach ac edryf hyt e mae dygavn en e kyvreyth. A'e re errv en agkyvreythyavl y ar y pryodolder, ac o ssyt a amhevho henny e mae ydav ef dygavn a'y gwyr yr re errv en agkyvreythyavl y ar y pryodolder. Ac essef e mae entev en dody ar e kyvreyth: delyv ohonav entev dyvot en kyvreythyavl tra'y kevyn y'r lle yr re errwyt en agkyvreythyavl ohonav.

O dervyd bot rey a ryvedo dody keytweyt a gwybydyeyt o'r vn pleyt, e kyvreyth a dyweyt e gellyr eny gwarantawer attep er amdyffynnwr. 'Dyoer' hep er amdyffynnwr, 'myvy essayd pryodavr o ach ac edryf, ac esef ed wyf en gwarchadv ve pryodolder: mal e mae gorev y delyaf y gwarchadv, ac o ssyt a amhevho henny e mae y my dygavn a keydv bot en wyr a dywedaf. A thythev, o bvosty ema en kyvreythyawl, ed eythost odema, ac o ssyt a amhewo henny, e mae ymy dygavn a'y gwyr.' E kyvreyth a dyweyt ket darffo y'r amdyffynnwr rody attep kyn no'y holy ef o'r hawlwr, bot en anolo er attep eny warandawho ef er havl. Ac odyna attep. Ac gwedy darffo vdvnt ev dwy kyghavssaeth mal y dywedassam ny wuchot, govynnet er egnat vdvnt ae dygavn a dywedassant wy, a govynnet vdvnt a vynnant gwellaw ev kyghavssaet.

Iorwerth – C

Achos Llys am Dir

Fel hyn yr eisteddir yn gyfreithiol: y brenin neu'r dyn a fo yn ei le i eistedd a'i gefn at yr haul neu at y tywydd rhag i'r tywydd aflonyddu ar ei wyneb. A'r ynad llys neu ynad y cwmwd, pwy bynnag a fo'r hynaf, yn eistedd ger ei fron ef. Ac ar y llaw chwith i hwnnw yr ynad arall neu'r ynaid a fo yn y maes, ac ar y llaw dde iddo ef yr offeiriad os bydd yn y maes, neu yr offeiriaid. Ac o amgylch y brenin neu'r sawl a fo yn ei le y ddau hynfydd a'i wyrda o hynny allan o bobtu iddo. Wedyn, ffordd i'r ynaid gyferbyn â hwynt iddynt fynd yn ôl ac ymlaen i'w brawdle. Wedyn, cyngaws yr hawlwr ar y llaw chwith iddo ar y ffordd, a'r hawlwr yn nesaf ato yn y canol, a'r canllaw ar y llaw arall iddo, a'r rhingyll yn sefyll y tu ôl i'r cyngaws. A'r blaidd arall yr ochr arall i'r ffordd: cyngaws yr amddiffynnwr ar y llaw dde iddo ar y ffordd, a'r amddiffynnwr yn nesaf ato yn y canol, a chanllaw yr hawlwr ar y dde yn olaf. Ac yna y mae'n iawn i'r hawlwr ddechrau holi.

Dyma sydd yn iawn i'r hawlwr ei ddweud: mynegi ei fod ef yn briodor ar y tir hwn yma a'r ddaear, ac os bydd unrhyw un a amheuo ei fod ef yn briodor, bod ganddo yntau rai a gadwo'i briodolder yn ôl ach ac edryf, i'r graddau sydd yn ddigon yn y gyfraith. Ac iddo gael ei yrru'n anghyfreithlon oddi ar ei briodolder, ac os oes unrhyw un a amheuo hynny, mae ganddo ef ddigon a wŷr iddo gael ei yrru'n anghyfreithlon oddi ar ei briodolder. A dyma y mae yntau'n ei ddodi ar y gyfraith: ei bod

yn iawn iddo ddod yn gyfreithiol drachefn i'r lle y gyrrwyd ef yn anghyfreithlon ohono.

Os yw'n digwydd bod rhai a ryfeddo i'r un blaidd ddodi ceidwaid a gwybyddiaid, dywed y gyfraith y gellir [gwneud hynny] hyd nes y gwrandawer ar ateb yr amddiffynnwr. 'Duw a wŷr,' ebe'r amddiffynnwr, 'myfi sydd yn briodor o ach ac edryf, a dyma sut yr wyf yn gwarchod fy mhriodolder: yn y ffordd orau y mae'n iawn i mi ei warchod, ac os oes unrhyw un a amheuo hynny mae gen i ddigon a geidw fod yr hyn a ddywedaf yn wir. A thithau, os buost ti yma yn gyfreithiol, fe aethost oddi yma, ac os oes unrhyw un a amheuo hynny, mae gen i ddigon a'i gŵyr.' Dywed y gyfraith, er i'r amddiffynnwr roddi ateb cyn i'r hawlwr ei holi, bod yr ateb yn ddirym hyd oni wrandawo ef ar yr hawl. Ac wedyn ateb. Ac wedi iddynt orffen eu dwy gynghawsedd fel y dywedasant ni uchod, gofynned yr ynad iddynt a ddywedasant hwy ddigon, a gofynned iddynt a fynnant wella eu cynghawsedd.

Cyfnwrth – X, Cotton Cleopatra B V, f. 190r

Gwaith Amaethyddol ar Dir Arall

E nep a ardo tir dros lud argluyd, taled pedeur keynnyawc y'r perchennawc y tir, canys egores daear gan dreis, a phedeir keynnyawc pan diotto yr aradyr o'r daear, a cheinnyawc o bop cwys or amchwelho yr aradyr. Kymered y brenhin yr ychen, a'r swch, a'r cwlltdyr, a'r aradyr, a'r gwerth y troed dehev y'r amaeth, a gwerth y llaw dehev y'r geilwad. Od ard dyn dir dyn arall y cudyaw dim yndaw, perchennawc y tir a geiff y gудua, a phedeir keynnyawc kyfureith am agori y daear, onyd eurgrawn vyd, kanys y brenhin bieu pob eurgrawn. Y neb a wnel [annel] ac a'e clado y mewn tir dyn, taled iiii keynnyawc kyfreith y berchennawc y tir, [ac o cheffir llwdwn yn yr annel, perchen y tir] biev, a thaled tri buhin camlwrw y'r brenhin. O cledir pwll odyn ar dir dyn arall heb ganhyad, iiii o'r keynnyawc kyfureith a tal y berchennawc y tir y gan y nep a'e clatho, a thri buhin camlwrw y'r brenhin. E neb a adeilho ty heb ganhyad ar dir dyn arall, talhed tri buhin camlwrw y'r brenhin, a'r ty a geiff perchennawc y tir a phedeir keynnyawc kyfureith o agori daear, os ar y tir y lletir yr adeilwyd. Onyd ar y tir y lledir, tynghet ar y drydyd o wyr vn ureint ac ef, a thorred y ty y ar y tir yn gyfuwch a'r daear, a dyged kyn penn y nawvetyd ymeith; ac onys dwc, perchennawc y tir biev.

Cyfnwrth – X

Gwaith Amaethyddol ar Dir Arall

Pwy bynnag a fydd yn aredig tir yn erbyn gwaharddiad arglwydd, taled bedair ceiniog i berchennog y tir, canys agorodd y ddaear trwy drais, a phedair ceiniog pan dynno'r aradr o'r ddaear, a cheiniog am bob cwys y bydd yr aradr yn ei throi. Cymered y brenin yr ychen, a'r swch, a'r cwlltwr, a'r aradr, a gwerth troed dde'r amaethwr, a gwerth llaw dde'r geilwad. Os bydd dyn yn aredig tir dyn arall er mwyn cuddio rhywbeth ynddo, caiff perchennog y tir y guddfa, a phedair ceiniog cyfraith am agor y ddaear, oni fydd yn eurgrawn, canys y brenin biau pob eurgrawn. Pwy bynnag a wnel annel ac a'i claddo yn nhir dyn [arall], taled bedair ceiniog cyfraith i berchennog y tir, ac os ceir anifail yn yr annel, perchennog y tir fydd piau hwnnw, a thaled dair buwch yn gamlwrw i'r brenin. Os cleddir pwll odyn ar dir dyn arall heb ganiatâd, taled pwy bynnag a'i cloddio bedair ceiniog cyfraith i berchennog y tir, a thair buwch yn gamlwrw i'r brenin. Pwy bynnag a adeilado dŷ ar dir dyn arall heb ei ganiatâd, taled dair buwch yn gamlwrw i'r brenin, ac fe gaiff perchennog y tir y tŷ a phedair ceiniog cyfraith am agor y ddaear, os ar y tir y torrwyd y coed adeiladu. Os nad ar y tir y torrwyd hwy, tynged yn un o dri gŵr un fraint ag ef, a thorred y tŷ oddi ar y tir yn gyfuwch â'r ddaear, a chymered ef ymaith cyn pen y nawfed dydd; ac oni chymer ef, perchennog y tir fydd piau ef.